

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynhyrchu effeithiau marmor ac mae'n cynnwys darparu amddiffyniad i'r ardal waith.

Bydd y safon hon hefyd yn cynnwys dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, offer a chyfarpar, yn unol â gofynion sefydliadol sy'n hafal i neu'n rhagori ar y gofynion statudol a deddfwriaethol cyfredol.

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol Paentio ac Addurno a gellir ei defnyddio gan weithredwyr, goruchwylwyr a rheolwyr.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Dehongli gwybodaeth

P1 dehongli a defnyddio'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd ar gyfer y canlynol:

- lluniadau
- manylebau
- amserlenni
- datganiadau dull
- asesiadau risg
- gwybodaeth y gweithgynhyrchwyr
- taflenni data technegol
- taflenni data diogelwch
- deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol sy'n llywodraethu adeiladau

Arferion gwaith diogel

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol i gyflawni'r gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r canlynol:

- dulliau gwaith
- defnydd diogel o offer rheoli iechyd a diogelwch
- defnydd diogel o offer mynediad
- defnydd, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd gan gynnwys iechyd meddwl
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â haenau arwyneb sy'n cynnwys plwm

Dewis adnoddau

P3 cyfrifo a dewis swm ac ansawdd yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y dulliau gwaith ar gyfer:

- deunyddiau
- offer a chyfarpar

Lleihau'r risg o ddifrod

P4 cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal gyfagos drwy:

- amddiffyn y gwaith a'i ardal gyfagos a gorffeniadau neu arwynebau cyfagos rhag

difrod

- cynnal ardal waith ddiogel, glir a thaclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

Dull o weithio

P5 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethol eraill a chleientiaid

Bodloni manyleb y contract

P6 cydymffurfio â gwybodaeth y contract i gynhyrchu effeithiau marmor i'r fanyleb ofynnol drwy:

- dangos sgiliau gwaith i:
 - cymysgu
 - blendio
 - tywallt
 - gwanhau
 - taenu ar arwyneb sych (lay-on)
 - dotio
 - meddalau
 - pluo
 - tynnu paent (wipe-out)
- defnyddio a chynnal offer llaw a chyfarpar cysylltiedig
- paratoi tiroedd o ansawdd uchel a chynhyrchu gwahanol fathau o effeithiau marmor gan ddefnyddio sgymblau dŵr neu doddydd a deunyddiau priodol eraill i gyfarwyddiadau gwaith sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - eang
 - llinol
- taenu haen amddiffynnol briodol ar waith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

P1 Dehongli gwybodaeth

K1 pam y datblygwyd gweithdrefnau sefydliadol a sut y cânt eu gweithredu

K2 mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut y cânt eu dehongli mewn perthynas â:

- lluniadau
- manylebau
- amserlenni
- datganiadau dull
- asesiadau risg
- gwybodaeth y gweithgynhyrchwyr
- taflenni data technegol
- taflenni data diogelwch
- deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol sy'n llywodraethu adeiladau

K3 pwysigrwydd gwybodaeth gywir, ac adrodd ac unioni unrhyw bryderon

K4 yr ystod o wasanaethau, offer a systemau digidol perthnasol, a sut y cânt eu defnyddio

P2 Arferion gwaith diogel

K5 y wybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso

K6 y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio mewn perthynas â:

- dŵr
- CO2
- ewyn
- powdr

K7 sut y dylid ymateb i argyfyngau yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol mewn perthynas â:

- tanau, gollyngiadau, anafiadau
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol
- nodi ac adrodd am ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos

Cynhyrchu effeithiau marmor

- nodi ac adrodd am ddeunyddiau sy'n cynnwys plwm

K8 y gweithdrefnau diogelwch sefydliadol ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol mewn perthynas â:

- gweithredwr
- safle
- gweithle
- cerbydau
- cwmni
- cwsmer
- y cyhoedd cyffredinol

K9 sut i adrodd am risgiau a pheryglon a nodwyd gan y canlynol:

- dulliau gwaith
- asesiad risg
- asesiad personol
- gwybodaeth dechnegol y gweithgynhyrchwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd COSHH

K10 y gweithdrefnau adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

K11 pam, pryd a sut y dylid defnyddio offer rheoli iechyd a diogelwch a nodwyd gan egwyddorion atal mewn perthynas â:

- mesurau amddiffynnol ar y cyd
- cyfarpar amddiffynnol personol (PPE)
- offer amddiffynnol anadlol (RPE)
- system awyru gwacáu lleol (LEV)
- atal llwch

K12 sut i gydymffurfio ag arferion gwaith sy'n gyfrifol am yr amgylchedd er mwyn bodloni deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

K13 y gweithdrefnau sefydliadol wrth ddelio â damweiniau posibl, peryglon iechyd a'r effaith amgylcheddol wrth weithio yn y gweithle:

- islaw lefel y ddaear

- mewn mannau cyfyng
- ar uchder
- gydag offer a chyfarpar
- gyda deunyddiau a sylweddau
- symud a storio deunyddiau trwy drin â llaw a chodi'n fecanyddol
- gweithio'n agos at aelodau'r cyhoedd

P3 Dewis adnoddau

K14 pam mae'r nodweddion, yr ansawdd, y defnyddiau, y cynaliadwyedd, y cyfyngiadau a'r diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau yn bwysig a sut y dylid cywiro diffygion

K15 y gweithdrefnau sefydliadol i ddewis adnoddau, pam y cawsant eu datblygu a sut y cânt eu defnyddio

K16 sut i gadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n cydymffurfio â'r fanyleb

K17 sut y dylid defnyddio'r adnoddau a sut y caiff unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau eu hadrodd mewn perthynas â:

- sgymblau perchnogol a wnaed â dŵr ac a wnaed â thoddyddion, gwydreddau sgymbl
- paentiau, staenwyr, rhwymwyr, teneuwyr, pigmentau, sychwyr a haenau amddiffynnol
- deunyddiau masgio a thafleuni amddiffynnol
- cynwysyddion gwastraff
- offer llaw a chyfarpar sy'n gysylltiedig ag effeithiau marmor

K18 sut i adnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gwaith a sut maen nhw'n cael eu goresgyn

K19 dulliau o gyfrifo'r swm, yr hyd a'r gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull a'r weithdrefn i gynhyrchu effeithiau marmor

P4 Lleihau'r risg o ddifrod

K20 sut i amddiffyn gwaith a'i ardaloedd cyfagos a gorffeniadau neu arwynebau cyfagos rhag difrod a phwrpas amddiffyn rhag gweithle cyffredinol gweithgareddau, galwedigaethau eraill, aelodau'r cyhoedd ac amodau tywydd garw

K21 sut i leihau'r difrod i ffabrig adeiladau presennol

K22 pam a sut mae'n rhaid gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â'r canlynol:

- cyfrifoldebau amgylcheddol
- gweithdrefnau'r cwmni
- gwybodaeth y gweithgynhyrchwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol

K23 pam ei bod hi'n bwysig cynnal ardal waith ddiogel, glir a thaclus

P5 Dull o weithio

K24 y rhaglen waith i'w chyflawni gan gynnwys yr amser amcangyfrifedig a'r amser a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

K25 y mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

P6 Bodloni manyleb y contract

K26 pwysigrwydd gwaith tîm a chyfathrebu

K27 pwysigrwydd ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a lles

K28 pwysigrwydd cymhwyso Tegwch, Cynhwysiant a Pharch (FIR) wrth ddelio ag eraill

K29 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynhyrchu effeithiau marmor

K30 sut i sefydlu gofynion mynediad i'r safle

K31 sut i nodi a phenderfynu pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol ac adrodd yn unol â hynny

K32 perthnasedd asesiad o arwyddocâd hanesyddol

K33 sut i adnabod gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladu traddodiadol, adeiladau anodd eu trin ac arwyddocâd hanesyddol

K34 sut i weithio ar uchder gan ddefnyddio offer mynediad

K35 sut i ddefnyddio'r holl offer llaw a phŵer a chyfarpar cysylltiedig

K36 sut a pham y cynhelir gofal a chynnal a chadw gweithredol yr holl offer llaw a phŵer a chyfarpar cysylltiedig

K37 sut i wirio addasrwydd arwyneb a baratowyd yn flaenorol a'i ddwyn i lawr i sylfaen addas

K38 sut i baratoi paent a chynhyrchion sgymbbl (perchnogol ac wedi'u cynhyrchu'n bersonol)

K39 sut i baratoi brwsys, rholeri, offer a chyfarpar arbenigol

K40 sut i gynhyrchu effeithiau marmor

K41 sut i gymhwyso effeithiau marmor i waith eang a llinol

K42 sut i gwblhau gwaith mewn camau

K43 sut i roi haen amddiffynnol briodol dros waith marmor

K44 sut mae amodau atmosfferig yn effeithio ar haenau a'u proses taenu

Ymddygiadau

Mae ymddygiadau'n ceisio mynd i'r afael â'r ffaith bod NOS yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau. Mewn rhai diwydiannau, nid yw canlyniadau yn unig yn cael eu hystyried yn ddigonol. Mae cyflogwyr hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig disgrifio'r ffyrdd cyffredinol y mae unigolion yn mynd ati i gyflawni'r canlyniadau.

Mae'r ymddygiadau canlynol wedi'u nodi ar gyfer y NOS hon a dylid eu nodi ond nid oes angen eu hasesu.

B1 Canolbwyntio ar ansawdd:

Rhoi sylw i fanylion i gyflawni gwaith o ansawdd uchel i safonau cyfredol y diwydiant. Ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o grefftau eraill. Darparu amddiffyniad i orffeniadau cyfagos i osgoi difrod posibl.

B2 Agwedd gadarnhaol ac aeddfed:

Cydwybodol a phroffesiynol gan gynnwys ymddangosiad. Cymryd cyfrifoldeb am farnau a gweithredoedd personol. Bod yn ymwybodol o derfynau cymhwysedd personol. Cynnal safonau moesegol, gan gynnwys gonestrwydd, uniondeb, tegwch, cynhwysiant, parch a thryloywder ym mhob agwedd ar y rôl.

B3 Gwaith tîm:

Gweithio fel rhan o dîm adeiladu mwy. Cydweithio'n effeithiol â chrefftwyr eraill a chyfathrebu'n dda i gyflawni nodau'r prosiect. Dangos gwasanaeth cwsmeriaid da. Bod yn gwrtais, agos-atoch, ac yn ymatebol i anghenion cleientiaid.

B4 Sylw at Gynaliadwyedd:

Yn ymwybodol o ystyriaethau cynaliadwyedd ac amgylcheddol wrth ddefnyddio adnoddau a chynnal prosesau.

B5 Dysgu Parhaus:

Nodi anghenion datblygu personol a chymryd camau i ddiwallu'r anghenion hynny trwy gyfleoedd dysgu a datblygu. Cadw ar y blaen ag arfer gorau, technoleg, technegau a deunyddiau newydd.

Cynhyrchu effeithiau marmor

Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	30 Medi 2025
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Medi 2030
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR652
Galwedigaethau perthnasol	Paentwyr ac Addurnwyr
Cyfes/Set	Paentio ac Addurno
Geiriau Allweddol	Effeithiau marmor; Sgymbll; Gwydro; Farnais; Dotio; Pluo
